

**Rhif: WG35008**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 Ymgynghoriad

Ymgynghoriad ar weithrediad ac effeithiolrwydd.

Deddf sector amaethyddol (Cymru) 2014, rhwng 2014 a 2017

Mai 2018

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cafwyd 12 o ymatebion. Roedd 5 o blaid cadw'r Ddeddf, roedd 2 am gael ei gwared ac roedd 5 heb farn gref am y mater.

Y 12 a ymatebodd oedd - Practical Farm Ideas, Parciau Cenedlaethol Cymru, ADAS (dim sylw), Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA), Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr (dim sylw), Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, UNITE, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), RSPB Cymru Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA Cymru) a'r ALP - Cymdeithas Darparwyr Llafur.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn gweld budd posib o gadw gorchmynion cyflogau fel rhwyd ddiogelwch ar gyfer gweithwyr amaethyddol ac fel ffordd o annog y sector i ddarparu hyfforddiant. Roedd rhai'n teimlo bod y Ddeddf gyfan neu rannau ohoni yn ddiangen, er enghraifft, roedd rhai'n credu bod gorchmynion cyflogau'n anachroniaeth ddiangen, ond bod gan y Panel rôl bositif i chwarae o ran datblygu sgiliau a gyrfa. Roedd ymatebwyr yn cydnabod yn gyffredinol bod llawer o ffactorau'n sbarduno newid ac y dylid rhoi mwy o amser i'r Ddeddf a'r Panel i gael yr effaith a ddymunwyd.

Ymhlith y rhesymau a fynegwyd dros ddi-ddymu'r Ddeddf oedd bod y Panel ei hun yn rhoi gormod o ffocws ar gadw trefniadau a ddatblygwyd yn y gorffennol ac y dylai yn lle hynny ganolbwyntio fwy ar y dyfodol. Roedd rhai'n teimlo bod cyflogau amaethyddol yn ddynt eu hunain yn anachronistaidd, yn orgymhleth ac y dylid dibynnu yn unig ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

I weld yr holl ymatebion, gofynnwch amdanynt.

Farm Ideas	<p>Roedd Farm Ideas yn credu y dylid cadw'r Ddeddf ond bod angen ei newid.</p> <p>Mae'r angen i gymell ffermwyr i gael hyfforddiant da yn ffactor allweddol. Dylid diwallu'r angen i gyfathrebu'n well â ffermwyr trwy gynnwys ysgrifenyddwyr, ymgynghorwyr a ffermwyr blaengar.</p> <p>Byddai'r diwydiant yn elwa o gael arweinwyr mwy radical ac arloesol o ystyried yr hinsawdd cyfnewidiol sydd ohoni.</p> <p>Rhaid wrth isafswm cyflog i leihau tlodi gwledig.</p> <p>Mae angen esbonio'u hawliau wrth weithwyr yn well.</p> <p>Dylid neilltuo ffermwyr sy'n rhychwantu'r ffin i naill ai Cymru neu Loegr, gan ddibynnu ar eu cyfeiriad post.</p>
------------	--

Parciau Cenedlaethol Cymru	<p>Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru am weld sector amaeth sy'n gallu ymateb ac addasu'n rhwydd ac sy'n gallu ateb gofyn heddiw i leddfu pryderon amgylcheddol ac elwa o hynny.</p> <p>Er na wnaethant ddatgan a ddylai'r Ddeddf gael ei chadw neu beidio, teimlent pe bai'n cael ei chadw y byddai gofyn i'r Panel ymgorffori sgiliau ac arbenigeddau ychwanegol er mwyn gallu ymateb i ofynion modern fel y newid yn yr hinsawdd, gadael yr UE a diffyg Polisi Amaeth Cyffredinol (PAC).</p>
Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol	Dywedodd ADAS ei fod am aros yn amhleidiol, felly wnaethon nhw ddim datgan barn.
CLA (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)	<p>Barn CLA oedd y dylid diddymu'r Ddeddf. Ond fe wnaethant gynnig syniadau ynghylch sut y dylai'r Panel fynd yn ei flaen.</p> <p>Mae datblygu sgiliau'n hanfodol i lwyddiant y diwydiant yn y dyfodol ond nid oedd cyfiawnhad mwyach dros bennu lefelau cyflog lleiaf yn y sector gan nad oedd fawr yn wahanol ynddo i unrhyw sector arall. Roeddent am weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y dyfodol yn hytrach na chadw trefniadau'r oes o'r blaen.</p> <p>Gofynnodd CLA a oedd y Panel wedi ystyried sut y dylai reoli ar sail defnydd tir ac a oedd yn ffactor yn ei ystyriaethau. Roeddent am weld asesiad o sgiliau a sut y gallai sgiliau arbenigol a thechnegol fod yn rhan o strwythur y gorchmynion cyflogau.</p> <p>Roedd CLA yn cydnabod bod amseriad sefydlu'r Panel yn anodd - gan i ganlyniad y refferendwm dynnu sylw pawb oddi wrth effaith y Panel a'r problemau sy'n wynebu'r sector. Teimlwyd bod canllawiau Gorchymyn 2016 yn briodol a defnyddiol.</p>
Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr	Nid oedd gan y Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch cadw neu beidio â chadw'r Ddeddf.
RSPB Cymru	<p>Ni wnaeth RSPB Cymru ddatganiad clir ynghylch cadw'r Ddeddf ond cafwyd awgrym y dylai barhau.</p> <p>Dywedwyd fod angen dysgu a hyfforddi ffermwyr a pherchenogion tir am egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy a chredir y gallai Is-bwyllgor y Panel gyfrannu trwy sicrhau bod y rhaglenni datblygu sgiliau parhaus yn rhoi sylw i hynny.</p> <p>Maent yn credu bod gofyn i'r Panel adlewyrchu'r gofynion ehangach sydd ar y sector amaeth yng Nghymru a dylai cynrychiolaeth ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys y sector amgylcheddol, fod yn aelodau ohono. Byddai hynny'n sicrhau</p>

	<p>mewnbwn amgylcheddol ac ecolegol a dealltwriaeth o egwyddorion sut i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.</p>
<p>ALP – Cymdeithas Darparwyr Llafur</p>	<p>Mae'r Gymdeithas o'r farn nad oes cyfiawnhad clir na rhesymegol dros gadw trefniadau arbennig yn y sector hwn a ddim mewn sectorau eraill lle mae cyflogau isel yn broblem.</p> <p>Mae'r ALP yn credu bod cwmpas y Ddeddf ynghyd â chymhlethdod ei gweithredu yn creu problemau mewn meysydd fel tâl salwch, y gyd-berthynas â'r gyfraith cyflogaeth ehangach a'r diffiniad o weithiwr amaethyddol.</p>
<p>CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru</p>	<p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid cadw'r Ddeddf.</p> <p>Eu rheswm dros gredu hynny yw rôl yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant a fydd yn tyfu'n gynyddol bwysig ar ôl i'r DU adael yr UE.</p> <p>Maent am weld y Ddeddf yn cael ei chadw gan ei bod yn ffordd o sicrhau bod gweithlu amaethyddol blaengar sydd wedi'i hyfforddi'n dda, sy'n alluog ym maes rheoli adnoddau naturiol ac sy'n ymwybodol o'i gysylltiadau â sectorau eraill yn cael ei ddatblygu, hynny er mwyn gallu wynebu heriau a chyfleoedd y dyfodol i reoli adnoddau.</p> <p>Ym marn CNC, byddai'n dda o beth pe bai'r Panel yn lledaenu ei waith yn well.</p>
<p>Undeb Amaethwyr Cymru</p>	<p>Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn credu y dylid cadw'r Ddeddf ac y dylai'r Panel gael mwy o amser i ddatblygu.</p> <p>Blaenoriaeth y Panel, credent, yw annog creu proffil datblygu gyrfa ar gyfer pobl ifanc i'w denu i'r diwydiant ac i roi amser iddyn nhw ddatblygu. Gwnaed sylwadau ar bwysigrwydd annog ysgolion a cholegau addysg bellach i hyrwyddo amaethyddiaeth, bwyd a diwydiannau'r tir - swyddi fel cipera a gweithgareddau â cheffylau. Maent yn credu y byddai cwricwla addas mewn astudiaethau gwledig/amaethyddol ar lefel ysgol gyfun neu goleg yn rhagofyn i addysg uwch lwyddiannus mewn amaethyddiaeth, a gallai'r Panel ddylanwadu ar hynny.</p> <p>Roeddent yn cytuno y daw manteision o gael trefn ar gyfer isafswm cyflog ond fod bandiau'r Gorchymyn Cyflogau wedi dyddio. Nid oedd yn glir pa weithwyr amaethyddol sy'n dod o dan y Ddeddf ac awgrymwyd y gellid creu ap i helpu aseswyr annibynnol. Roedd cyfeiriad at y ddarpariaeth ar gyfer asesu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar-lein fel enghraifft o arfer da.</p>

	<p>Roeddent yn bryderus ynghylch yr oedi â Gorchymyn 2017.</p> <p>Dywedwyd fod angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r amodau cyflogau, y gallai Cyswllt Ffermio godi ymwybyddiaeth ffermwyr ac y gallai canolfannau gwaith roi gwybod i ymgeiswyr am amodau a budd-daliadau gwaith.</p>
TFA	<p>Ni fynegodd TFA Cymru farn gref ynghylch a ddylid cadw'r Ddeddf ond roeddent am weld y Panel yn rhoi'r syniadau y mae wedi'i ddatblygu ar waith.</p> <p>Awgrymwyd y dylai'r Panel weithio'n fwy clos â chyrrff fel Cyswllt Ffermio, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Lantra a TFA Cymru ei hun. Teimlid y dylai'r Panel roi mwy o bwyslais ar Brexit yn ei waith.</p> <p>Maent yn poeni y gallai gorfodi ffermwyr i dalu isafswm fesul awr gael effaith negyddol ar y diwydiant. Dadleuant hefyd bod angen mynd i'r afael â'r prisiau yn y siopau. Mae cyfraddau lleiaf yn ychwanegu at y pwysau ariannol ar ffermwyr.</p> <p>Maent yn credu bod angen codi ymwybyddiaeth. Maent yn cwyno mai dim ond ar-lein y mae'r canllawiau ar gael a bod llawer o ffermwyr yn anghysurus ar-lein neu'n methu â defnyddio'r rhyngwyd. Maent yn gofyn am fwy o unffurfiaeth wrth ddelio â busnesau sy'n rychwantu'r ffin.</p>
NFU - Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	<p>Mae NFU Cymru'n credu bod gan y Panel rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth ond mae'n cwestiynu a oes gwir angen deddfwriaeth i bennu cyflogau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Nid ydynt yn teimlo bod angen bellach ers sefydlu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae'r Undeb yn holi a yw gorchmynion cyflogau amaethyddol yn dod â budd i'r diwydiant ac maent yn awgrymu y dylid cynnal dadansoddiad manwl o gostau'r Ddeddf.</p> <p>Maent yn sylweddoli ei bod yn ddyddiau cynnar ar y Panel o hyd a bod angen gweithlu brwd sydd â'r cymwysterau gorau ac sy'n cael ei dalu'n dda er mwyn cael diwydiant amaeth cynhyrchiol, blaengar a phroffidiol yng Nghymru. Mae gan y Panel rôl yn hynny trwy ddatblygu sgiliau.</p> <p>Mae'r arweiniad i Orchymyn 2016 yn anodd ei ddeall, meddent, yn enwedig ynghylch pethau fel tâl gwyliau a thâl salwch. Os penderfynir cadw'r Gorchmynion, bydd angen canllawiau cliriach ac awgrymant y byddai cyfrifianellau ar-lein yn ddefnyddiol er mwyn i gyflogwyr allu gweithio allan faint i'w dalu i'w gweithwyr.</p> <p>Maent yn cynghori bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r deunydd</p>

	<p>cyfathrebu sy'n ymdrin â gorchmynion cyflogau amaethyddol a bod angen mwy o eglurder ynghylch gweithio ar draws ffiniau.</p>
UNITE	<p>Mae Unite yn credu y dylid cadw'r Ddeddf, nad yw'r Panel wedi cael fawr o amser i ennill ei blwyf ond y gallai gyfrannu at wneud gweithio yn y diwydiant yn syniad deniadol.</p> <p>Mae Unite yn cefnogi cadw'r gorchmynion cyflogau amaethyddol er eu bod yn poeni ynghylch yr oedi gyda Gorchymyn 2017.</p> <p>Maent yn credu y dylai'r canllaw ar Orchmynion Cyflogau gynnwys cyngor i weithwyr ynghylch sut i fynd i'r afael â phroblemau fel diffyg talu cyflogau neu enghreifftiau eraill o dorri'r amodau.</p> <p>Maent yn credu bod angen codi ymwybyddiaeth o ddarpariaethau'r isafswm cyflogau amaethyddol a bod yna lawer o weithwyr nad ydyn nhw'n gwybod eu hawliau ac efallai bod rhai cyflogwyr nad ydyn nhw'n deall eu dyletswyddau statudol.</p> <p>Maent yn credu hefyd bod angen mwy o gysondeb o safbwynt gweithio ar draws ffiniau.</p>